

2021-24

# STRATEGAETH AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT VERSUS ARTHRITIS

**VERSUS  
ARTHRITIS**



# Cynnwys

- 01** Beth am i ni ddechrau o'r dechrau
- 02** Cyflwyniad
- 03** Ein gwaith ymgysylltu
- 04** Sut fyddwn ni'n monitro cynnydd
- 05** Cwmpas
- 06** Ein gweledigaeth, gwerthoedd ac egwyddorion
- 07** Ein nodau
- 08** Casgliadau
- 09** Diolchiadau







**BETH AMINI DDEC**

# HRAU O'R DEGHRAU

Er mwyn cydweithio'n effeithiol mae angen cyd-ddealltwriaeth ar bob un o derminoleg amrywiaeth a chynhwysiant i'n helpu i roi pobl ar flaen ein meddwl a'n hymddygiad.

# Terminoleg

## Amrywiaeth

Mae pwy ydyn ni, ein hunaniaeth a'n profiadau yn ein gwneud ni'n unigryw, ac yn cyfrannu at sut rydyn ni'n meddwl ac yn teimlo. Nid yw'r amrywiaeth, neu'r gwahaniaeth hwn, yn ymwneud â nodwedd neu ddemograffig benodol yn unig, a dylid ei ddathlu.

## Cynhwysiant

Sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, eu croesawu a'u gwerthfawrogi trwy ein strwythurau, ein systemau a'n hymddygiadau. Y ffactor pwysig yma yw ei fod yn ymwneud â sut mae pobl yn teimlo.

## Tegwch

Cyflawni tegwch trwy drin pobl yn ôl angen. Mae ymarfer tegwch yn gofyn am ddealltwriaeth o ystod o ffactorau, gan gynnwys sut mae anfanteision hanesyddol yn parhau i effeithio ar sut mae rhai pobl yn profi'r byd. Mae tegwch yn arwain at gydraddoldeb.

## Cydraddoldeb

Sicrhau nad yw unigolion neu grwpiau o unigolion yn cael eu trin yn wahanol neu'n llai ffafriol, ar sail eu nodwedd warchoddedig benodol. Gall cydraddoldeb heb ecwiti sicrhau canlyniadau negyddol i grwpiau o bobl.

## Pŵer

Y gallu i ddylanwadu ar ymddygiad eraill neu gwrs digwyddiadau. Mewn cyd-destun amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle, yn draddodiadol mae pŵer yn cael ei ddal gan grwpiau dominyddol cymdeithas a gellir ei gymhwyso ar lefel unigol neu strwythurol.

## Braint

Set o fuddion nas enillwyd a roddir i bobl sy'n ffitio i mewn i grŵp cymdeithasol penodol gan gynnwys hil, dosbarth, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, iaith, lleoliad daearyddol, gallu a chrefydd.

## Gormes systematig

Mathau o bŵer sefydliadol, strwythurol a hanesyddol sy'n cadw grwpiau o bobl dan ormes i lawr yn draddodiadol.

## Person ag arthritis

Unigolyn sydd wedi nodi ei fod â chyflwr y byddem yn ei ddsbarthu yn un o'n 3 grŵp: cyflyrau poen cyhyrysgerbydol, cyflyrau llidiol neu gyflyrau breuder.



## Gwrth-hiliaeth

Mae gwrth-hiliaeth yn ymwneud â mynd ati i nodi a gwrthwynebu hiliaeth. Nod gwrth-hiliaeth yw herio hiliaeth a newid y polisïau, yr ymddygiadau a'r credoau sy'n galluogi i syniadau a gweithredoedd hiliol barhau. Mae gwrth-hiliaeth wedi'i wreiddio mewn gweithredu ac mae'n ymwneud â chymryd camau i ddileu hiliaeth ar lefelau unigol, sefydliadol a strwythurol.

## Croestoriadol

Y ffordd gymhleth, gronnus y mae effeithiau sawl math o wahaniaethu (megis gwahaniaethu ar sail hil, rhyw a dosbarth) yn cyfuno, yn gorgyffwrdd neu'n croestorri, yn enwedig ym mhrofiadau unigolion neu grwpiau ar yr ymylon.



**CYFELWYNIAD**



Ein gweledigaeth yw byd nad yw bellach yn goddef effaith arthritis. Rydym yn gwrthod derbyn y gall arthritis ddwyn hanfodion bywyd yn llechwraidd ac rydym yn mynnu ac yn darparu atebion gwell i bobl ag arthritis sy'n wynebu poen, blinder ac unigedd. Rydym yn creu effaith trwy ariannu ymchwil blaenllaw yn rhyngwladol, darparu cefnogaeth a gwybodaeth, ymgyrchu dros newid a rhoi llais i bobl ag arthritis. Gwyddom fod angen ymgorffori egwyddorion amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gwaith os ydym am gyrraedd yr ystod ehangaf o bobl, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a herio arthritis gyda'n gilydd.

# “mae angen i ni weithio’n galed i ddatblygu un diwylliant cynhwysol a hygyrch mewn partneriaeth â’n staff a’n gwirfoddolwyr”

**Byddwn yn canolbwyntio ar ble y gallwn gael yr effaith fwyaf, gan herio gwahaniaethu o fewn popeth a wnawn.** Mae gan bawb yr hawl i gael eu trin ag urddas a pharch. Rydym wedi ymrwymo i greu diwylliant sefydliadol sy'n amrywiol ac yn gynhwysol; diwylliant sy'n meithrin ac yn grymuso pob unigolyn i ffynnu a chyrraedd ei lawn botensial, gan ddarparu profiad teg i bawb.

Er mwyn dod yn elusen fwy amrywiol, cynhwysol a hygyrch i bawb ag arthritis, mae'n rhaid i ni hefyd gyd-greu dull cyfannol, integredig a chadarnhaol o gefnogi'r 38% o'n staff sydd ag arthritis neu sy'n gofalu am rywun sydd â chyflwr cyhyrysgerbydol.

Rydym ar ddechrau ein taith amrywiaeth a chynhwysiant yn Versus Arthritis. Rydym yn cydnabod nad ydym bob amser wedi gwneud pethau'n iawn i'n holl bobl a bod rhai o'n staff wedi bod heb ymddiriedaeth ynom i ddelio â materion yn effeithiol. Nid yw'n dderbyniol bod rhai o'n pobl wedi dioddef bwlio a hiliaeth ac nid yw'n unol

â'n gwerthoedd na'r elusen yr ydym am fod. Rydym yn cymryd cyfrifoldeb llawn, ac mae'n ddrwg gennym fod hyn wedi digwydd. Rydym yn cydnabod y boen a'r trawma y mae rhai o'n pobl wedi'i ddiodef ac rydym yn ymrwymo i weithio gyda'n staff a'n gwirfoddolwyr i sicrhau bod gennym elusen sy'n ddiogel yn seicolegol.

Rhaid i ni hefyd gael sgysiau gonest ynglŷn â lle rydyn ni wedi cael pethau'n anghywir yn ddiweddar ac yn hanesyddol. Mae ein staff wedi dweud wrthym ein bod wedi methu â gwrando pan wnaethom uno dwy elusen i ddod yn Versus Arthritis ac, o ganlyniad, mae angen i ni weithio’n galed i ddatblygu un diwylliant cynhwysol a hygyrch mewn partneriaeth â’n staff a’n gwirfoddolwyr.

Er ein bod wedi dechrau gweithio ar amrywiaeth a chynhwysiant yn y gorffennol, nid ydym wedi symud ymlaen heibio'r cam cynllunio, gan golli ymddiriedaeth rhai o'n pobl a chael ein cyhuddo o fod ‘llawn dweud, dim gwneud’.






Rydym yn derbyn y feirniadaeth honno a byddwn yn gwneud yn well. Rydym am i'r strategaeth hon alluogi pawb i deimlo'n gadarnhaol ac yn falch o fod yn rhan o Versus Arthritis ac yn llawn gobaith am yr hyn y byddwn yn ei gyflawni trwy ein gwaith gyda'n gilydd i herio arthritis.

Nid yw pobl ag arthritis yn un grŵp homogenaidd. Mae arthritis yn effeithio ar bobl o bob diwylliant, o bob oed, dosbarth, crefydd a rhyw, ar draws pedair gwlad y DU. Fodd bynnag, nid ydym yn cyrraedd pawb sy'n byw gydag arthritis yn gyson ac yn effeithiol, gyda'r gefnogaeth ragorol y gallwn ei chynnig.

Rhaid i ni ddatblygu ein partneriaethau a'n perthnasoedd â sefydliadau sydd eisoes yn gweithio gyda'r bobl rydyn ni'n gwybod eu bod heb sylw digonol gan ein helusen. Rhaid i ni fod yn glir na fydd y nod o gyrraedd pawb ag arthritis byth yn dod i ben. Ein nod yw bod yn elusen sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pobl ag arthritis o unrhyw oedran ac unrhyw gefndir.

Rydyn ni'n gobeithio y bydd y strategaeth hon yn rhoi hyder i'n staff, gwirfoddolwyr a chefnogwyr ein bod ni'n golygu'r hyn rydyn ni'n ei ddweud am ein hymrwymiad i ddod yn elusen amrywiol, gynhwysol, gwrth-hiliol a gwrthwahaniaethol sy'n arwain y sector yn y gwaith hwn.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb wrth fodloni Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran y naw nodwedd warchoddedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas



**“Rydym am i'r strategaeth hon alluogi pawb i deimlo'n gadarnhaol ac yn falch o fod yn rhan o Versus Arthritis ac yn llawn gobaith am yr hyn y byddwn yn ei gyflawni”**

a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Ond rydym am fynd ymhellach na'n cyfrifoldebau deddfwriaethol, felly byddwn yn cefnogi staff a gwirfoddolwyr sy'n wynebu rhwystrau eraill, gan gynnwys bod yn rhiant sengl, bod â chyfrifoldebau gofalu a/neu fod ag acen.

Rhaid inni fabwysiadu dull croestoriadol wrth ystyried ein staff a'n gwirfoddolwyr ac unrhyw un sy'n ymwneud â'n helusen. Mae angen i ni helpu ein gilydd i ddeall sut mae agweddau



ar hunaniaethau cymdeithasol a gwleidyddol unigolyn yn cyfuno i greu gwahanol ddulliau o wahaniaethu a braint ac addasu ein dull o gael gwared ar rwystrau rhag cynhwysiant.

Mae'r strategaeth hon yn ddogfen fyw, sy'n ymrwymo i weledigaeth uchelgeisiol yn fwriadol gan ein bod am wneud mwy na chyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol yn unig. Mae'n fan cychwyn, sy'n nodi ein gweithgaredd uniongyrchol a hirdymor. Byddwn yn dysgu ac yn mireinio ein dull yn barhaus, gan ddatblygu ein

dealltwriaeth mewn partneriaeth â'n staff a'n gwirfoddolwyr, wrth gydnabod y bydd gwir drawsnewid sefydliadol a diwylliannol yn cymryd amser. Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â meysydd anghydbwysedd, addasu ein polisïau a'n prosesau os oes angen.

Mae ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant gyntaf yn gam cadarnhaol ymlaen yn ein brwydr yn erbyn arthritis. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu hyd yn hyn ac edrychwn ymlaen at symud y gwaith hwn ymlaen gyda'n staff a'n gwirfoddolwyr.



# “Rydyn ni am sicrhau bod pawb yn Versus Arthritis yn gwybod beth yw eu rôl wrth weithredu ein gweithgaredd amrywiaeth a chynhwysiant”

## Ein gwaith ymgysylltu

Aethom ati i siapio'r strategaeth hon trwy ymgysylltu â staff, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid a dwysau ein dealltwriaeth o amrywiaeth a chynhwysiant. Er enghraifft:


- Rhedeg dros 30 o ddigwyddiadau ymgysylltu â staff a gwirfoddolwyr.
- Cynnal arolwg dienw gyda'r holl staff.
- Casglu data trwy ein harolwg demograffig amrywiaeth 'Deall ein Pobl'
- Cynnal sesiynau ymgysylltu â'n Bwrdd, tîm Arweinyddiaeth Sefydliadol, Fforwm Gweithwyr a rhwydweithiau staff.
- Ymgymryd â modelu amrywiaeth - i nodi targedau newydd sy'n heriol ond yn gyraeddadwy.
- Dysgu o arbenigedd ymarferwyr amrywiaeth a chynhwysiant allanol.
- Gwerthusiad o *The Parker Review: Ethnic Diversity Enriching Business Leadership*, *The McGregor-Smith Review: Race in the*

*Workplace, NHS Workforce Race Equality Standard a Business in the Community Race at Work Charter.*

- Myfyrio ar ein hanes diweddar.

## Sut y byddwn yn monitro cynnydd

Er mwyn sicrhau bod cynnydd y strategaeth hon yn cael ei graffu'n briodol, rydym wedi sefydlu Grŵp Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant cyntaf Versus Arthritis sy'n cael ei gadeirio gan ein prif swyddog gweithredol ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'n rhwydweithiau staff a'n Fforwm Gweithwyr ar draws pob cyfarwyddiaeth. Mae'r grŵp wedi helpu i lunio a dylanwadu ar ddatblygiad y strategaeth hon a bydd yn monitro meysydd allweddol ein perfformiad amrywiaeth a chynhwysiant mewn perthynas â dangosyddion y cytunwyd arnynt. Bydd yn tynnu materion perthnasol i sylw arweinyddiaeth Versus Arthritis, gan eu dwyn i gyfrif am gynnydd. Mae'r strategaeth



amrywiaeth a chynhwysiant hon yn cael ei chymeradwyo gan ein Bwrdd Ymddiriedolwyr a'n tîm Arweinyddiaeth Sefydliadol. Mae creu atebolrwydd am gynnydd amrywiaeth a chynhwysiant o fewn strwythurau arweinyddiaeth uchaf yr elusen yn sicrhau bod amrywiaeth a chynhwysiant yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol, gan ganiatáu inni greu profiad cyson a chynhwysol i'n pobl.

Rydym am sicrhau bod pawb yn Versus Arthritis yn gwybod beth yw eu rôl wrth weithredu ein gweithgaredd amrywiaeth a chynhwysiant a'n bod yn rhannu cynnydd yn fewnol ac yn allanol. I wneud hyn, byddwn yn:

- Cyfathrebu'r strategaeth a'i mentrau i staff, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid.
- Gwneud pob cyfarwyddiaeth yn gyfrifol am weithredu gweithgaredd i'w staff, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid.
- Adrodd yn chwarterol i'r tîm Arweinyddiaeth Sefydliadol ar gynnydd y gweithgaredd.

- Adolygu a thrafod cynnydd yn erbyn y strategaeth yn flynyddol gyda'n Bwrdd Ymddiriedolwyr.
- Cyhoeddi diweddariad blynyddol allanol ar ein cynnydd yn erbyn ein nodau.

## Cwmpas

Mae'r strategaeth hon yn nodi ein dull o Ebrill 2021 i Fawrth 2024, i'n helpu i gyflawni ein blaenoriaethau amrywiaeth a chynhwysiant am y tair blynedd nesaf. Mae'n darparu ymrwymiad a chyfeiriad a rennir, fel y gallwn weithio gyda'n gilydd i barchu, gwerthfawrogi a chynyddu amrywiaeth ac adeiladu elusen fwy cynhwysol a hygyrch. Mae'n cynnwys tri nod a chamau allweddol y byddwn yn eu cymryd dros y tair blynedd nesaf ac yn amlinellu sut y byddwn yn olrhain cynnydd ac yn mesur llwyddiant a threfniadau llywodraethu.

**EIN GWELEDIGAEETH, GWERT**

**THOEDD AC EGM YDDORION**



## **Gweledigaeth**

Bydd amrywiaeth a chynhwysiant wrth galon popeth a wnawn. Bydd ein hymchwil, ein gwasanaethau a'n gwaith dylanwadu yn adlewyrchu anghenion amrywiol pawb sy'n byw gydag arthritis a bydd ein gweithwyr, gwirfoddolwyr ac Ymddiriedolwyr yn cynrychioli amrywiaeth eang y cymunedau yr ydym yn rhan ohonynt. Bydd pawb yn teimlo y gallant berthyn i gymuned Versus Arthritis ac yn teimlo'n gyffyrddus ac yn cael eu gwerthfawrogi wrth ddod â'u hunan cyfan i'n helusen.

## **Gwerthoedd**

Ein gwerthoedd yw'r fframwaith ar gyfer ein hymddygiad a'n penderfyniadau, ac maent yn nodi'r hyn a ddisgwyliwn gan ein pobl yn Versus Arthritis, gan gynnwys wrth roi'r strategaeth hon ar waith. Credwn y bydd grymuso ein pobl i wneud penderfyniadau ar sail gwerthoedd yn sicrhau gwell ymchwil, cefnogaeth a dylanwad i bobl ag arthritis. Bydd hefyd yn helpu ein pobl i deimlo eu bod yn cymryd rhan, yn gynhyrchiol ac yn llawn egni i gyflawni ein nodau amrywiaeth a chynhwysiant. Trwy gyflawni'r strategaeth hon, rydym am ddod yn elusen sy'n seiliedig ar werthoedd sy'n annog ymddygiadau cyson i gefnogi ein cenhadaeth i herio arthritis.



## EIN GWERTHOEDD

Rydym yn gwerthfawrogi ein cyfraniad i sefydliad cwbl gynhwysol a hyblyg, sy'n blaenoriaethu iechyd a lles pobl.

Rydym yn gwerthfawrogi dysgu i gynyddu ein heffaith ar bobl y mae arthritis yn effeithio arnynt.

Rydym yn gwerthfawrogi bod yn atebol am ein gweithredoedd ac mae gennym ddisgwyliadau uchel o'n gilydd.

Rydym yn gwerthfawrogi dyfalbarhau â heriau pan wyddom mai dyna'r peth iawn i'w wneud.

## Sut mae hyn yn berthnasol i'n gwaith Amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym yn datblygu ein dealltwriaeth yn barhaus o'r effaith gadarnhaol y mae ymarfer a gwneud penderfyniadau amrywiol a chynhwysol yn ei chael ar iechyd a lles pobl.

Rydym yn cefnogi ein gilydd yn gyson i ddysgu a datblygu, gan gydnabod bod gan bobl lefelau amrywiol o ddealltwriaeth a bydd angen cefnogaeth deg arnynt.

Rydym yn creu amgylcheddau diogel, yn cydnabod ein braint unigol ac yn gyffyrddus i herio ein hunain a'n gilydd yn ein gwaith ar amrywiaeth a chynhwysiant.

Fe wyddom nad yw gwaith amrywiaeth a chynhwysiant bob amser yn gyffyrddus nac yn hawdd, ond byddwn yn ddygn yn ein hymdrechion i ddatblygu ein nodau.

## EIN HEGWYDDORION

Rydym yn rhannu ac yn deall heriau gyda'n gilydd.

Rydym ni'n rhoi cryfder pryd bynnag mae ei angen.

Nid ydym byth yn atal ein chwiliad am atebion newydd.

## Sut mae hyn yn berthnasol i'n gwaith Amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym yn casglu data amrywiaeth yn systematig i ddeall bylchau yn ein cefnogaeth, ymchwil a gweithgaredd dylanwadu, yn cynllunio gweithredu i sicrhau'r cyrhaeddiad a'r effaith ehangaf.

Rydym yn sicrhau bod ein gweithgareddau ymchwil, cymorth a dylanwadu yn gynhwysol ac yn hygyrch felly nid oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl.

Gan ddefnyddio ymchwil ac ymarfer allanol diweddar, rydym yn gwella ac yn adolygu ein gwaith amrywiaeth a chynhwysiant yn barhaus, gan ymdrechu am ragoriaeth.

**EIN WODAU**

Rydym wedi ceisio dod yn elusen fwy amrywiol, cynhwysol a hygyrch a chyrraedd yr ystod ehangaf bosibl o bobl sy'n byw gydag arthritis. Er mwyn dal ein hunain yn atebol am y newidiadau yr ydym yn eu ceisio, rydym wedi trosi ein huchelgais yn dri nod, pob un wedi'i gefnogi gan ystod o gamau gweithredu traws-elusennol. Rydym yn cydnabod y bydd cyflawni hyn yn cymryd amser ac mae'r nodau hyn yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i wireddu ein huchelgais. Er mwyn sicrhau tryloywder, ac i gynorthwyo i gyflawni ein dyletswyddau yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, byddwn yn mesur ac yn adrodd ar ein cynnydd mewn ffordd drylwyr a thryloyw. Mae gan bob nod ei fesurau a'i gynnydd ei hun, a dylid ei olrhain yng nghyfarfodydd chwarterol y Grŵp Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant.

# NOD UN:

## Diwylliant cynhwysol a hygyrch sy'n meithrin perthyn

**Erbyn 2024, bydd ein holl bobl yn teimlo eu bod yn perthyn yn Versus Arthritis, waeth beth fo'u cefndir.**

### Ein man cychwyn ar gyfer newid

Mae diwylliant cynhwysol yn cefnogi amrywiaeth, yn meithrin ymdeimlad o berthyn yn y gweithle ac yn sicrhau na wahaniaethir yn annheg yn erbyn pobl. Rydym yn gwybod bod gan sefydliadau cynhwysol bobl sy'n ymgysylltu'n fwy, yn llawn cymhelliant ac yn gynhyrchiol ac sy'n hyderus ac yn barod i wneud penderfyniadau gwell.

Ein pobl yw'r hapusaf ac maent yn perfformio orau pan allant fod yn nhw eu hunain a phan ddathlir eu profiadau, eu cefndiroedd a'u ffyrdd o feddwl. Rydym am sicrhau nad oes raid i'n pobl ofyn am addasiadau fel y gallant wneud eu gwaith, ond gwrandewir arnynt os gwnânt hynny, felly byddwn yn rhagweithiol wrth greu diwylliant lle mae gan bawb ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion pobl.

Nid ydym yn tanamcangyfrif y dasg dan sylw na'r buddion i iechyd a lles y mae diwylliant cynhwysol yn eu cyflawni. Rydym yn cydnabod bod hwn yn ymrwymiad tymor hir ac y bydd cyflwyno a chynnal diwylliant gwirioneddol gynhwysol ar draws yr elusen yn ein helpu i ddiwallu anghenion amrywiol pobl ag arthritis yn well. O fewn y nod hwn, rydym yn cynnwys gweithgaredd i'n helpu i ddod yn elusen wrth-hiliol a

gwrthwahaniaethol, felly mae ein holl staff yn ffynnu heb brofiadau negyddol parhaus sy'n gysylltiedig â'u hunaniaethau.

### Gweithgareddau allweddol i gyflawni'r nod hwn:

- Bydd ein staff a'n gwirfoddolwyr yn mynychu gweithdy amrywiaeth a chynhwysiant gorfodol a hyfforddiant gwrth-hiliaeth ac yn teimlo'n hyderus wrth fynegi ein cyd-ddealltwriaeth o amrywiaeth a chynhwysiant a gwrth-hiliaeth.
- Byddwn yn darparu cyfres o adnoddau a phecynnau cymorth amrywiaeth a chynhwysiant i reolwyr ac arweinwyr ac i'r holl staff a gwirfoddolwyr.
- Byddwn yn cefnogi staff a gwirfoddolwyr pan fydd angen iddynt godi pryderon a byddwn yn datblygu ein sgiliau ymhellach wrth reoli pryderon ynghylch bwlio ac aflonyddu.
- Byddwn yn adolygu'n llawn ein dulliau o Fynediad at Waith ac addasiadau rhesymol i sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn effeithiol.

# NOD DAU:

## Ehangu amrywiaeth pobl yn erbyn arthritis

**Bydd ein proffil staff a gwirfoddolwyr, yn enwedig ein Bwrdd, ein tîm Arweinyddiaeth Sefydliadol, Penaethiaid a Chyfarwyddwyr, yn adlewyrchu'n well yr ystod eang o bobl ag arthritis a byddwn yn archwilio sut i ehangu amrywiaeth ein cymunedau sy'n brwydro yn erbyn anghyfiawnder arthritis.**

### Ein manau cychwyn a'n targedau ar gyfer newid

Daw staff a gwirfoddolwyr Versus Arthritis o ystod eang o gefndiroedd ac rydym yn dod ag amrywiaeth o safbwyntiau, sgiliau a phrofiadau i'r sefydliad. Rydym yn dathlu ein hamrywiaeth fel cryfder ac yn cydnabod mai'r hyn sy'n dod â ni at ein gilydd yw ein hawydd i gefnogi, ymgyrchu dros a rhoi llais i bobl ag arthritis.

Ym mis Ebrill 2021, cynhaliom ein harolwg demograffig amrywiaeth cyntaf 'Deall Ein Pobl' fel rhan o ddatblygiad y strategaeth hon. Mae'r gyfradd ymateb o 79% a gyflawnwyd gennym yn uchel o'i chymharu â sefydliadau eraill ac mae'n dangos cefnogaeth i'n gwaith amrywiaeth a chynhwysiant ymhlith ein staff. Gwnaethom hefyd arolwg demograffig amrywiaeth o'n Bwrdd Ymddiriedolwyr ym mis Ebrill 2021, gan gyflawni cyfradd ymateb o 100%. Er mwyn gwneud ein Bwrdd yn fwy cynrychioliadol, rydym yn cydnabod bod angen i ni weithio gydag Ymddiriedolwyr i'w helpu i werthfawrogi y gall sefyll o'r neilltu ryddhau swyddi y gellir eu llenwi gan ystod ehangach o Ymddiriedolwyr ac i ddeall yn llawn sut mae recriwtio ac

ymarfer cynhwysol yn edrych. Mae angen i ni hefyd archwilio gyda'n Bwrdd sut i symud y cysyniad o 'rannu pŵer' gyda'n staff.

Gellir gweld ein demograffeg gyfredol, yn seiliedig ar yr arolygon, yn nhablau 1, 2 a 3 (isod) a cheir crynodeb ehangach yn Atodiad 2. Mae ein gweithlu presennol wedi'i dangynrychioli o ran ethnigrwydd, rhyw ac oedran. Er ein bod yn weithle aml-ffydd mae ychydig dros hanner y gweithlu yn nodi nad oes ganddynt unrhyw grefydd ac mae gennym lawer llai o staff o ffydd Gristnogol o gymharu â'r boblogaeth gyfan. Er bod y niferoedd yn fach, rydym ar yr un lefel neu ychydig yn or-gynrychioliadol o'r holl grefyddau eraill o fewn ein gweithlu o'i gymharu â'r boblogaeth gyfan, ar wahân i Islam lle mae ychydig o dangynrychiolaeth.

Mae gan ein gweithlu dangynrychiolaeth, o'i gymharu â phoblogaeth y DU, o bobl sy'n nodi eu bod o gymysg ethnig, Asiaidd, Du neu ethnigrwydd arall. Y rhai sydd fwyaf heb gynrychiolaeth ddigonol yw'r rhai sy'n uniaethu fel Asiaidd, ac yna staff Du. Mae ein gweithlu yn swyddfa Llundain yn sylweddol llai amrywiol o ran ethnigrwydd na phoblogaeth y ddinas. Y tangynrychiolaeth fwyaf arwyddocaol yw'r rhai sy'n nodi eu bod yn Ddu, Du Prydeinig, Caribiaidd neu



Affricanaidd (amrywiant o -11%), ac yna gwasgariad Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (amrywiant o -10%). Mae diffyg amrywiaeth ethnig sylweddol ar lefelau uchaf y sefydliad, yn enwedig ar lefel y Bwrdd, ond hefyd ymhlith cyfarwyddwyr a rheolwyr. Fel rhan o gynllun gweithredu'r strategaeth, byddwn yn sefydlu data demograffig amrywiaeth ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wrth i ni gydnabod bod angen dadansoddi ein data amrywiaeth eang cyfredol ar lefel cenedl ymhellach.

**“Rydym yn dathlu ein hamrywiaeth fel cryfder ac yn cydnabod mai'r hyn sy'n dod â ni at ein gilydd yw ein hawydd i gefnogi, ymgyrchu dros a rhoi llais i bobl ag arthrits”**

Mae gan 44% o'n staff anabledd neu gyflwr iechyd tymor hir. Er bod hon yn ganran uwch na llawer o sefydliadau eraill, mae gennym waith pellach i'w wneud i sicrhau ein bod yn wirioneddol gynhwysol a hygyrch ac nad yw ein canran o staff ag anabledd yn gostwng. Mae'r rhan fwyaf o'n gweithlu yn dod o fewn y grŵp oedran 25-64 ac mae tangynrychiolaeth sylweddol o'r boblogaeth oedran gweithio iau (19-24) a



hŷn (65-74). At ei gilydd, mae'r rhai sydd â chontract swyddfa yn tueddu i fod o fewn y cromfachau oedran iau, tra bod y rhai sydd wedi'u contractio gartref o fewn y cromfachau oedran hŷn.

Mae'r duedd hon yn arbennig o nodedig wrth edrych ar weithwyr swyddfa yn Llundain, ond mae'r rhai sydd wedi'u lleoli yn swyddfa Chesterfield yn dilyn patrwm tebyg i weithwyr cartref yn Lloegr.

Rydym ar ddechrau ein taith i gasglu data ar ein cronfa gwirfoddolwyr a chynnwys, gyda sampl fach iawn o ddata demograffig amrywiaeth. Dywed ein data y dylem ganolbwyntio ar gynyddu nifer y gwirfoddolwyr gwrywaidd, gwirfoddolwyr o gefndiroedd Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, Du, Du Prydeinig, Caribiaidd neu Affricanaidd neu grwpiau ethnig eraill a gwirfoddolwyr o dan 40 oed.

**Tabl 1: Demograffeg staff Versus Arthritis (Ebrill 2021).**

Nodwedd	Versus Arthritis 2021	Targed 2024 Versus Arthritis	Meincnodau
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, Du, Du Prydeinig, Caribiaidd neu Affricanaidd, grŵp ethnig arall	11%	15%	14% ONS 2011
Oed (19-24)	1%	5%	10% ONS 2011
Rhyw (benywaidd)	80%	Nid yw islaw 50%	50% ONS 2011
Hunaniaeth Rhyw	Dim data	Sefydlu coladu data	I'w Gadarnhau
Anabledd	44%	Nid yw islaw 40%	19% ONS 2011
Cydweithwyr LGBTQ+	10%	Nid yw islaw 10%	2.2% Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2018
Cyfrifoldebau gofal	55%	Nid yw islaw 50%	6.7% Carers UK 2019
Pobl sydd â pherthynas ag arthritis (sydd ag arthritis neu'n gofalu am rywun ag arthritis)	44%	50%	Ddim ar gael

**Tabl 2: Demograffeg Bwrdd Versus Arthritis (Ebrill 2021)**

Nodwedd	Versus Arthritis 2021	Targed 2024 Versus Arthritis	Meincnodau
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, Du, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd, grŵp ethnig arall	0%	15%	14% ONS 2011
Oed (Dan 44)	9%	50%	50% Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2018
Oed (dros 44)	81%	50%	50% Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2018
Rhyw (benywaidd)	43%	50%	50% ONS 2011
Hunaniaeth Rhyw	Dim data	Sefydlu coladu data	I'w Gadarnhau
Anabledd	9%	19%	19% ONS 2011
Cydweithwyr LGBTQ+	9%	10%	2.2% Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2018
Cyfrifoldebau gofal	57%	Nid yw islaw 50%	6.7% Carers UK 2019
Pobl sydd â pherthynas ag arthritis (sydd ag arthritis neu'n gofalu am rywun ag arthritis)	Dim data	Sefydlu coladu data	Ddim ar gael

**Tabl 3: Tîm Arweinyddiaeth Sefydliadol a Phenaethiaid (Ebrill 2021)**

Nodwedd	Versus Arthritis 2021	Targed 2024 Versus Arthritis	Meincnodau
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, Du, Du Prydeinig, Caribiaidd neu Affricanaidd, grŵp ethnig arall	12%	15%	14% ONS 2011
Oed (dan 44)	55%	Nid yw islaw 50%	10% ONS 2011
Oed (dros 44)	45%	50%	I'w Gadarnhau
Rhyw (benywaidd)	79%	Nid yw islaw 50%	50% ONS 2011
Hunaniaeth Rhyw	Dim data	Sefydlu coladu data	I'w Gadarnhau
Anabledd	48%	Nid yw islaw 40%	19% ONS 2011
Cydweithwyr LGBTQ+	21%	Nid yw islaw 10%	2.2% Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2018
Cyfrifoldebau gofal	55%	Nid yw islaw 50%	6.7% Carers UK 2019
Pobl sydd â pherthynas ag arthritis (sydd ag arthritis neu'n gofalu am rywun ag arthritis)	44%	50%	Ddim ar gael

### **Gweithgareddau allweddol i gyflawni'r nod hwn:**

- Byddwn yn adolygu ein dull o recriwtio yn llawn trwy lens amrywiaeth a chynhwysiant, gan gymryd camau i sicrhau ein bod yn gynhwysol ar bwynt mynediad ac ar bob cam o'n proses recriwtio.
- Byddwn yn gwella sut rydym yn coladu ac yn dadansoddi demograffeg amrywiaeth ein staff a'n Hymddiriedolwyr ac yn olrhain ein cynnydd trwy gyflwyno systemau AD ac ATS newydd.
- Byddwn yn cyflwyno 'trwydded i gyflogi' ar gyfer pob rheolwr cyflogi, a fydd yn cynnwys hyfforddiant recriwtio cynhwysol a pheynnau cymorth arfer gorau sy'n canolbwyntio ar leihau gogwydd wrth wneud penderfyniadau a chynyddu a chefnogi amrywiaeth.

# NOD TRI:

## Profiad cynhwysol a hygyrch i bobl ag arthrits

Byddwn bob amser yn darparu cefnogaeth gynhwysol i bobl ag arthrits, gan drin pawb ag urddas a pharch ar bob cam o'u taith gyda ni, gan ddarparu llwyfan i bobl ag arthrits ddylanwadu ar ein gwaith a llunwyr polisi, waeth beth fo'u hoedran, rhyw neu gefndir.

### Ein man cychwyn ar gyfer newid

Rydym yn gwybod y gall pobl ag arthrits o unrhyw oedran a chefnidir wynebu rhwystrau wrth gyrchu gwasanaethau, sy'n golygu yn syml na fydd rhai yn cyrchu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Gall gwasanaethau a chefnogaeth gynhwysol, a ddarperir gyda dealltwriaeth o'r rhwystrau i gymryd rhan, wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ag arthrits. Byddwn yn cymryd camau gweithredol yn ystod oes y strategaeth hon a thu hwnt i ddiwallu anghenion pawb ag arthrits, gan nodi a dileu rhwystrau sy'n atal pobl rhag cyrchu ein gwasanaethau a'n cefnogaeth.

Rydym yn cydnabod bod gan bobl wahanol anghenion cyfathrebu, ac mae angen i ni ddatblygu ein gwasanaethau a'n deunyddiau yn unol â hynny. Bydd hyn yn sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn gallu cyrchu'r wybodaeth a ddarparwn, mewn ffordd hawdd ei defnyddio. Rydym hefyd eisiau proffilio ystod amrywiol o bobl yn ein gwaith cyfathrebu fel ein bod yn fwy cynrychioliadol o brofiadau pobl ag arthrits. Gwyddom fod angen i ni wella casglu gwybodaeth am bobl ag arthrits fel ein bod yn creu llinell sylfaen ein data ac yn mesur ein cynnydd.

### Gweithgareddau allweddol i gyflawni'r nod hwn:

- Byddwn yn gwella hygyrchedd, cynwysoldeb a chyrhaeddiad ein cyfathrebiadau a'n gwybodaeth gan ddefnyddio amrywiaeth o ffrydiau cyfathrebu.
- Byddwn yn datblygu perthnasoedd â sefydliadau sydd eisoes yn gweithio gyda'n cymunedau nad ydyn nhw'n cael cefnogaeth ddigonol.
- Byddwn yn datblygu un model ar gyfer pob grŵp a changen sy'n dymuno parhau i gefnogi Versus Arthritis gyda llywodraethu, cefnogaeth a gweithdrefnau cyfrannol, priodol a chyfrannol.

### Casgliadau

**Bydd cyflwyno strategaeth a chynllun gweithredu tair blynedd gyntaf Versus Arthritis yn ein helpu cyflawni ein gweledigaeth i roi amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd popeth a wnawn. Erbyn 2024, byddwn wedi creu elusen fodern wedi'i thrawsnewid y mae ein staff, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid yn teimlo'n falch ohoni i fod yn rhan ohoni.**



# DIOLCHIADAU

## Tîm prosiect y strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant

- **Helen Timbrell**, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygiad Trefniadaeth
- **Siobhan Corria**, Pennaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant
- **Alice Hockey**, Uwch Reolwr Prosiect

## Grŵp Gweithredu ar Amrywiaeth a Chynhwysiant

- **Ellen Miller**, Prif Swyddog Gweithredol
- **Kerry Jones**, Fforwm Gweithwyr
- **Mo McAllister**, Rhwydwaith Cynhwysiant Anabledd
- **Tracy Toussaint**, Rhwydwaith Tegwch Hil
- **Alaska Bailey**, Rhwydwaith Tegwch Hil
- **Erin Elkins**, Rhwydwaith Cydraddoldeb LGBTQ+
- **Devon Doeib**, Rhwydwaith Cydraddoldeb LGBTQ+
- **Helen Saxon Jones**, Swyddog Cynnwys a Gwirfoddoli
- **Yash Puri**, Partner Datblygiad Sefydliadol
- **Katie Mosses**, Uwch Reolwr Busnes Newydd
- **Paul Melhuish**, Rheolwr Cyfryngau (Newyddion ac Ymgyrchoedd)
- **Asmitha Maharaj**, Rheolwr Digidol
- **Svetlana Burkova**, Rheolwr Busnes y Gyfarwyddiaeth
- **Maria Glover**, Rheolwr Prosiect
- **Shereen Sabbah**, Rheolwr Rhaglen Ymchwil
- **Ailar Hashemzadeh**, Rheolwr Materion Cyhoeddus
- **Emma Perry**, Rheolwr Busnes y Gyfarwyddiaeth

## Grwpiau yr ymgysylltwyd â nhw


- Ymddiriedolwyr
- Staff
- Grwpiau Ymgysylltu â Gwirfoddolwyr
- Partneriaid Mewnwelediad Pobl
- Grŵp Pobl Ifanc
- Fforwm Gweithwyr
- Rhwydwaith Cynhwysiant Anabledd
- Rhwydwaith Tegwch Hil
- Rhwydwaith Cydraddoldeb LGBTQ+

Am ragor o wybodaeth, trowch at ein gwefan  
[versusarthritis.org](http://versusarthritis.org)

0300 790 0400

 /VersusArthritis

 @VersusArthritis

 @VersusArthritis

Versus Arthritis  
Copeman House  
St Mary's Gate  
Chesterfield  
S41 7TD